Arweiniad ar lenwi eich ffurflen gais	Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru Higher Education Funding Council for Wales hefcw

Gwybodaeth am y swydd

Rydym yn eich cynghori i ddarllen yr holl wybodaeth sydd ar gael am y swydd hon cyn dechrau llenwi'r ffurflen gais. Mae'r wybodaeth am y swydd wag yn cynnwys disgrifiad swydd llawn a manyleb bersonol, sy'n manylu ar y medrau, cymwysterau a phrofiad sydd eu hangen.

Bydd y fanyleb bersonol yn nodi unrhyw feini prawf hanfodol neu ddymunol. Dylech sicrhau eich bod chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y swydd a'ch bod chi'n nodi'n llawn yn eich cais sut yr ydych chi'n cwrdd â'r meini prawf hyn. Os nad ydych chi'n dangos eich bod chi'n cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol, ni chewch eich gwahodd i gyfweliad.

Mae'r meini prawf dymunol yn cynnwys medrau, cymwysterau a phrofiad y byddai'n fuddiol i'r deiliad swydd feddu arnynt. Nid oes angen i chi ddangos eich bod chi'n cwrdd â'r holl feini prawf dymunol er mwyn cael eich gwahodd i gyfweliad, er y dylech roi gwybodaeth i ni lle bo'n bosibl.

Bydd pob penderfyniad i roi ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael ei seilio i ddechrau ar y meini prawf hanfodol, a defnyddir y meini prawf dymunol i ddewis ymgeiswyr ymhellach, fel y bo'n briodol. Rhoddwn gyfweliadau i'r ymgeiswyr hynny sy'n cwrdd â'r meini prawf orau.

Serch hynny, nid yw cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol yn sicrhau y cewch gyfweliad, gan ei bod hi'n bosibl bod yna ymgeiswyr eraill sydd wedi dangos eu bod yn cwrdd â rhai neu'r cyfan o'r meini prawf dymunol yn ogystal â'r rhai hanfodol, neu eu bod yn cwrdd â'r meini prawf i raddau mwy a/neu mewn ffordd fwy perthnasol. Mae'n bosibl y caiff meini prawf hanfodol eu profi adeg y cyfweliad.

Dyddiad cau

Nodir y dyddiad cau ar gyfer y cais ar yr hysbyseb a'r wybodaeth am y swydd. Byddwch cystal â sicrhau bod eich cais yn cyrraedd erbyn 5pm ar y dyddiad a nodir, gan na dderbynnir ceisiadau hwyr fel rheol.

Cydnabod eich cais

Os ydych am i ni gydnabod bod eich cais wedi'i dderbyn, byddwch cystal â dychwelyd y cerdyn post amgaeedig, gyda'ch cyfeiriad a stamp arno, a byddwn yn ei ddychwelyd i chi ar ôl derbyn eich cais.

Rhif y swydd wag

Mae'n bwysig i chi nodi rhif y swydd wag ar bob gohebiaeth. Hwn yw'r rhif 'HExxxx/xxx', er enghraifft HE0110/593, a ddefnyddir ar yr hysbyseb ac yn ein gohebiaeth.

Cyffredinol

Cynhelir cyfweliadau mor fuan â phosibl a hysbysir yr holl ymgeiswyr o ganlyniad eu ceisiadau maes o law.

Y ffurflen gais

Byddwch cystal â llenwi pob adran o'r ffurflen gais. Os nad yw adran yn berthnasol i chi, ysgrifennwch 'ddim yn berthnasol' yn y blwch. Byddwch cystal â nodi nad ydym yn derbyn CVs. Os oes angen i chi gysylltu dalen ychwanegol wrth unrhyw adran, sicrhewch eich bod chi'n rhoi eich blaenlythrennau, cyfenw a rhif y swydd wag ar ben y dudalen.

Os ydych chi'n bwriadu cyflwyno cais electronig, rhaid anfon pob dogfen, gan gynnwys unrhyw atodiadau, ar ffurf ffeil Microsoft Word neu Adobe. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu derbyn unrhyw ddogfennau, gan gynnwys y ffurflen gais, mewn unrhyw fformat arall ar hyn o bryd. Os bydd hyn yn achosi trafferth i chi, byddwch cystal â chysylltu â ni.

Byddwch cystal â nodi, os cyflwynwch eich cais yn electronig, yr ystyrir bod hyn yn gadarnhad bod y wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi yn yr holl ddogfennau'n gywir. Os cewch eich penodi i'r swydd, byddwn yn gofyn am gopi wedi'i lofnodi o'ch cais ar gyfer ein cofnodion.

Hawl i weithio yn y DU
Byddwch cystal â rhoi gwybod i ni os ydych yn ddinesydd tramor sydd angen Trwydded Waith i weithio yn y DU. Dylech gadarnhau eich statws fel mewnfudwr, os yn berthnasol, cyn ateb y cwestiwn hwn.

Cyn dechrau gweithio gyda CCAUC, bydd gofyn i bob aelod staff ddangos tystiolaeth ddogfennol bod ganddynt ganiatâd i weithio yn y Deyrnas Unedig. Gallech ddangos, er enghraifft, pasbort Prydeinig, neu basbort neu Gerdyn Adnabod Cenedlaethol o wlad sy'n perthyn i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd neu'r Swistir, neu ddogfen yn dangos eich Rhif Yswiriant Gwladol DU parhaol a'ch Tystysgrif Geni DU lawn, neu drwydded waith a'ch pasbort.

Ailsefydlu troseddwyr
Ni fydd euogfarn droseddol yn eich rhwystro rhag cael eich cyflogi o anghenraid. Bydd CCAUC yn ystyried addasrwydd pob ymgeisydd ar sail teilyngdod a gallu. Mae Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 yn caniatáu i unigolion a gafwyd yn euog o drosedd a arweiniodd at ddedfryd o hyd at 30 mis yn y carchar ac sydd wedi cwblhau'r cyfnod ailsefydlu priodol ystyried bod eu heuogfarn 'wedi darfod'. Gellir ystyried bod 'euogfarnau sydd wedi darfod' erioed wedi digwydd.

Bydd unrhyw wybodaeth a ddatgelir yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol ac yn cael ei defnyddio'n unig wrth ystyried eich addasrwydd ar gyfer y swydd yr ydych chi'n gwneud cais amdani. Os methwch â datgelu gwybodaeth berthnasol y gofynnir amdani ar unrhyw adeg yn ystod y broses recriwtio, gallai eich cytundeb gael ei dynnu'n ôl, neu gallech gael eich diswyddo neu eich disgyblu.

Adran ar anabledd
Os ystyriwch eich bod chi'n anabl, byddwch cystal â rhoi manylion byr, gan gynnwys unrhyw addasiadau / cymorth y bydd eu hangen arnoch i fynychu cyfweliad neu gyflawni'r gwaith.

Cymwysterau addysgol a phroffesiynol a hyfforddiant arall
Byddwch cystal â rhoi manylion eich holl gymwysterau perthnasol, gan gynnwys y rheiny yr ydych chi'n astudio ar eu cyfer ar hyn o bryd. Gofynnir i chi ddarparu prawf o'ch

cymwysterau os cynigir swydd i chi gyda CCAUC. Peidiwch â chynnwys enw'r ysgol neu sefydliad na dyddiadau gan mai dim ond manylion y cymwysterau sydd eu heisiau arnom.

Aelodaeth o gyrff proffesiynol
Dylech roi manylion unrhyw sefydliadau neu gyrff yr ydych chi'n aelod ohonynt. Gofynnir i chi ddarparu prawf o'ch aelodaeth os cynigir swydd i chi gyda CCAUC.

Hanes cyflogaeth
Byddwch cystal â rhoi manylion llawn eich cyflogaeth hyd yma. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am eich cyflogwr presennol a chyn-gyflogwyr, swyddi a ddelir/a ddaliwyd, hyd eich gwasanaeth, cyflog a buddion, a disgrifiad byr o'ch prif gyfrifoldebau, dyletswyddau a chyflawniadau.

Rhesymau dros wneud cais a gwybodaeth ychwanegol
Mae'r adran hon yn rhoi cyfle i chi ddweud wrthym amdanoch chi eich hun a'r hyn y gallwch ei gynnig i CCAUC. Defnyddiwch hyn i ddangos eich medrau, gwybodaeth a phrofiad blaenorol sy'n berthnasol i'r swydd hon a sut y mae'r rhain yn cwrdd â'r meini prawf a nodir yn y disgrifiad swydd/manyleb. Cewch hefyd dynnu sylw at unrhyw wybodaeth arall y tybiwch ei bod hi'n berthnasol i'r cais hwn nad yw wedi'i chynnwys eisoes, er enghraifft, cyflawniadau ym meysydd addysg a hamdden.

Gallwch gyfeirio at elfennau o unrhyw agwedd ar eich bywyd, megis addysg, gwaith, neu eich bywyd yn y cartref neu'r gymuned, ond i chi ganolbwyntio ar ei pherthnasedd mewn perthynas ag anghenion y swydd hon.

Geirda
Byddwch cystal â rhoi enwau dau ganolwr a all roi sylwadau ar eich addasrwydd i wneud y swydd hon. Rhaid i o leiaf un geirda fod gan eich cyflogwr presennol neu ddiwethaf. Os ydych newydd adael addysg, dylai o leiaf un o'ch canolwyr fod yn athro, yn ddarlithydd neu'n ganolwr cymeriad. Byddwch cystal â nodi unrhyw eirda na allwn ofyn amdano cyn cynnig swydd. Mae CCAUC yn cadw'r hawl i gysylltu ag unrhyw gyflogwyr blaenorol yn ychwanegol at y canolwyr a ddewiswch.

Wrth ddarparu enwau canolwyr, rydych yn cytuno y gall CCAUC ofyn iddynt roi eu barn am eich cymeriad mewn perthynas â'r cais hwn. Bydd y farn hon, a roddir dan ymddiried, yn aros yn gyfrinachol.

Monitro cyfle cyfartal
Mae CCAUC yn croesawu'n gynnes geisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Rydym wedi ymrwymo i bolisi o gyfle cyfartal i'n holl staff. Ceisiwn wybodaeth am gydraddoldeb er mwyn cwrdd â'n dyletswyddau statudol ym maes cydraddoldebau ac i fynd y tu hwnt i hyn i ymdrin yn gadarnhaol ag unrhyw faterion sy'n codi o'n gwaith monitro. Cyflwynir y wybodaeth hon mewn ffordd gyfrinachol.

Deddf Gwarchod Data 1998 – Ni fydd y wybodaeth a geisir yn cael ei defnyddio ond at ddiben monitro effeithiolrwydd y polisi cyflogaeth hwn a pholisïau cyflogaeth cysylltiedig ac er mwyn i ni ddarganfod a yw pob ymgeisydd yn cael ei drin yn gyfartal beth bynnag y bo ei ryw, oedran, anabledd, statws priodasol, tarddiad hiliol neu ethnig, gogwydd rhywiol, crefydd neu gredo.

Hoffem yn fawr iawn pe gallech ddarparu'r wybodaeth hon, a gaiff ei thrin yn hollol gyfrinachol, er mwyn i ni allu cyflawni ein cyfrifoldebau cyfle cyfartal. Ond os nad ydych am lenwi'r cyfan neu ran o'r ffurflen hon, ni fydd yn effeithio ar y broses ddewis. Caiff y Ffurflen Cyfle Cyfartal a'r adran Manylion Personol eu datgysylltu cyn y prosesau dewis.

Byddwch cystal â nodi ein bod ni wedi cynnwys y categori 'Dim crefydd' ar ein ffurflenni monitro. Mae hyn wedi cael ei ddiweddaru ar y fersiynau electronig o'r ffurflen. Os ydych chi'n llenwi'r ffurflen ar ffurflen gais gyn-argraffedig, byddwch cystal â thicio'r blwch 'Arall' a nodi 'Dim crefydd' wrth ymyl y categori hwn.

Os cewch eich penodi i CCAUC, bydd y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o'ch cofnod personol a byddwn yn parhau i fonitro gwybodaeth o'r fath tra byddwch yn aelod o'r staff.

Deddf Gwarchod Data 1998
Gall y cyfan neu rannau o'r wybodaeth ar y ffurflen hon a phob dogfen arall a gyflwynir gyda'r cais gael eu storio ar ffeiliau cyfrifiadurol a'u defnyddio at ddibenion gweinyddol yn yr Adran Adnoddau Dynol ac i alluogi CCAUC i gwrdd â'i rwymedigaethau statudol. Bydd defnydd o'r fath yn amodol ar ddarpariaethau Deddf Gwarchod Data 1998.

Gwybodaeth gysylltu
Os oes angen unrhyw gymorth neu gyngor arnoch wrth lenwi'r ffurflen gais, byddwch cystal â chysylltu â ni ar 029 2068 2207. Fel arall, mae'r hysbyseb yn cynnwys manylion y rheolwr llinell y gallwch gysylltu ag ef i drafod y swydd yn anffurfiol. I gael gwybodaeth bellach am CCAUC, cyfeiriwch at y llyfryn 'Gweithio gyda ni' yn y pecyn cais neu at ein gwefan www.hefcw.ac.uk.

Byddwch cystal â dychwelyd eich ffurflen gais i:
Yr Adran Adnoddau Dynol
CCAUC
Cwrt Linden
Clos Ilex
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DZ.